**CABINET Y CYNGOR**
**COFNODION**
**19 Chwefror 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Arweinydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Cyllid), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Dafydd Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth), Guto Rhys Huws (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau Gwasanaeth Democrataidd), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet - Cofnod).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau Cabinet, aelodau'r Wasg a'r cyhoedd a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau – y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Elwyn Edwards ac Alan Evans Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Mair Rowlands fuddiant yn eitem rhif 12 gan ei bod yn eistedd ar Fwrdd Menter Iaith Bangor.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015.

## 6. CYLLIDEB 2015/16 A STRATEGAETH ARIANNOL 2015/16 – 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

1. Argymell i'r Cyngor -

   i. Sefydlu cyllideb o £228,193,060 ar gyfer 2015/16 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £168,311,989 a chynnydd yn y Dreth Cyngor o 4.5% fyddai'n golygu incwm Treth Cyngor o £57,862,389 gyda'r bwlch sy'n weddill i'w gyllido drwy ddefnyddio £2,018,682 o falansau'r Cyngor.

   ii. Hefyd, sefydlu rhaglen gyfalaf o £19.179m yn 2015/16 a £21.270m yn 2016/17 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodwyd yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.

   iii. Nodi parhad y strategaeth tymor canolig i ymgynghori am y cynigion i ddygymod gyda'r bwlch ariannol sy'n ein wynebu am y tair blynedd nesaf.

2. Derbyn cynigion y Fforwm Cyllido Addysg ar gyfer cyflawni £952,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion yn 2015/16 a chadw o fewn yr addewid cyllido ysgolion, gan ddefnyddio "Model B" ar gyfer cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu'r sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu'r sector uwchradd.

3. Gofyn i'r Fforwm Cyllido Ysgolion barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion uwchben y £952,000 ar gyfer 2015/16, gan ddisgwyl eu hargymhelliad ynglŷn â sut y gellir gwireddu'r £4.3m cyfan dros y cyfnod 2015/16 - 2018/19.

4. Gofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg annog cyrff llywodraethol ysgolion unigol i ystyried sut y gallant ddefnyddio balansau eu hysgolion fel rhan o becyn i gyfarch eu bwlch ariannol mewn ffordd gynlluniedig.

## 7. CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter o'r Gyllideb Refeniw (rhagolygon 2014/15 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2014), ac wedi ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran/gwasanaeth, gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adran perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – 2016/14 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig sef:
   - i. lleihad £95,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
   - ii. cynnydd £34,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
   - iii. cynnydd £246,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
   - iv. cynnydd £163,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill

2. O weithredu ar yr argymhellion uchod, ariannu rhaglen fel bod modd cyflawni prosiectau cyfalaf gwerth dros £92m yn 2014/15 – 2016/17.

## 9. ADOLYGIAD PARCIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwyo'r drefn arfaethedig ar gyfer rheoli parcio, a'r strwythur ffioedd parcio fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys –
   - i. sefydlu bandiau er mwyn gwahaniaethu'n rhesymegol rhwng ffioedd parcio mewn gwahanol ardaloedd, a chynllun gyda Cynghorau Cymuned ar gyfer cynyddu neu ddarparu cymhorthdal ffioedd er budd y gymuned. (rhan 3-5 o'r adroddiad),
   - ii. dod â meysydd parcio ychwanegol i'r drefn o dalu ac arddangos (rhan 7 o'r adroddiad), a
   - iii. chyflwyno trefn o dalu am barcio ar y stryd (rhan 9 o'r adroddiad)."
   - iv. cyflwyno cyfundrefn trefn parcio am ddim yn ystod cyfnod y Nadolig (rhan 6 o'r Adroddiad)
   - v. Sefydlu cyfundrefn codi tâl am barcio ar y stryd yn yr ardaloedd a nodwyd ( rhan 9 o'r adroddiad)

2. Bod y strwythur ffioedd newydd yn dod yn weithredol o 1af Ebrill 2015, a bod trefn o ymweld â’r maes ffioedd yn flynyddol yn cael ei sefydlu.

3. Yn ddarostyngedig i gynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn, bod cynllun tocyn blynyddol ar gyfer deiliaid bathodynnau glas yn cael ei ddatblygu dros y 12 mis nesaf, lle mae'r incwm yn cael ei ail fuddsoddi mewn gwelliannau hwyluso mynediad

## 10. AD-DREFNU ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y BERWYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

1. I ymgymryd a phroses o ymgynghori statudol yn unol a gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018.
2. I ymgymryd a phroses o ymgynghori statudol yn unol a gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws gwirfoddol a reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn agor ar 1 Medi 2018.
3. I ymgymryd a phroses o ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef Ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.

## 11. ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2013/14 – AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i roi sêl bendith i’r rhaglen waith sy’n ymateb i argymhellion a meysydd gwella AGGCC fel ar yr amlinellwyd yn Atodiad 2 i’r adroddiad a gyflwynwyd.

## 12. CEFNOGI CAIS I DDATBLYGU CANOLFAN IAITH YN ADEILAD YR HEN GLINIG, FFORDD SACKVILLE, BANGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cytuno i gefnogi cais grant, i ddatblygu'r Hen Glinig, Ffordd Sackville, gan dderbyn y risg posibl y byddai'r Cyngor yn ei gymryd o ran y brydles y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dal o fod yn gwneud hynny.

## 13. POLISI TÂL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

1. Argymell i'r Cyngor llawn -

a) gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf trwy ddileu'r pwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor, ac

b) ymgorffori'r newid hwn yn natganiad polisi tâl y Cyngor ar gyfer 2015/16.

2. Ariannu'r newid uchod drwy arbedion pellach a gyflawnwyd uwchben y targed wrth leihau costau uwch reolaeth y Cyngor.

## 14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Cyflwynwyd cais gan yr Arweinydd i gau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Roedd y paragraff yn berthnasol gan bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfa unigolyn o fewn y Cyngor ac mae sefyllfa'r unigolyn hwnnw yn greiddiol i'r cyfle sy'n codi ar gyfer ad-drefnu a chreu mwy o arbedion. Ni ellir gwahanu'r ddau heb greu adroddiad di-ystyr ac felly mae angen i'r adroddiad fod yn eithriedig.

**PENDERFYNIAD**

Cau allan y wasg a'r cyhoedd.

## 15. EITEM EITHRIEDIG – STRWYTHUR UWCH REOLAETHOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNIAD**

1. Ar y sail fod budd ariannol yn fwy na'r risgiau posibl, y dylid cefnogi yr hyn sydd dan sylw gan y Prif Weithredwr ar gyfer newid strwythur uwch reolaeth y Cyngor sef -

a) Yn amodol ar i'r Cyngor gytuno i'r newid yn y Polisi Cyflogaeth o ran cyflog diwygiedig y Pennaeth Cyllid, ei fod am ddileu swydd Cyfarwyddwr

Adnoddau (a’r gefnogaeth gysylltiedig) gan drosglwyddo rhai swyddogaethau i’r Pennaeth Cyllid a chreu arbediad net o £138,080.

b) Fel rhan o’u cynlluniau ymddeol yn hyblyg, gyda chytundeb y ddau swyddog, ei fod yn symud y Pennaeth Strategol a Gwella a’r Pennaeth Adnoddau Dynol i swyddi Arweinyddion Rhaglen Arbennig am dri diwrnod yr wythnos i’w cyllido drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith ac am byth. Unwaith y bydd hynny wedi ei gytuno ganddynt, ei fod yn bwriadu dileu’r ddwy swydd gan uno’r ddwy Adran dan ofalaeth swydd newydd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Datblygu’r Sefydliad i’w hysbysebu’n fewnol, a thrwy hynny yn arbed £73,100 pellach.

2. Y dylid defnyddio £45,000 o’r arbediad ychwanegol uwchben y targed sy’n cael ei gyflawni (sef £102,600) i ariannu’r cam nesaf tuag at y nod o dalu’r cyflog byw gyda gweddill yr arbediad ychwanegol yn mynd tuag at darged arbedion y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o’r gloch a daeth i ben am 3.05.

**CADEIRYDD**